TÎM O AMGYLCH Y DENANTIAETH (TATT) - GWEITHIWR YMGYSYLLTU

Mae TGP Cymru yn elusen sydd wedi'i lleoli yng Nghymru, ac sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n agored i niwed trwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Caiff gwasanaethau TGP Cymru eu hariannu gan nifer o gyrff ariannu, ac maent yn cael eu darparu ledled Cymru.

Adran TGP Cymru: Gwasanaethau Teulu

Yn gyfrifol i: Rheolwr y Tîm o Amgylch y Denantiaeth

Lleoliad: Gogledd Cymru – Wedi'i leoli gartref, ar hyn o bryd

Diben y rôl:

Darparu cymorth gan gyfoedion i bobl ifanc, a chefnogi tîm y 'Team Around the Tenancy' yn eu gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc rhwng 16 ac 25 oed.

Cyfrifoldebau/ Atebolrwydd:

- Defnyddio profiad personol i godi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith pobl ifanc a gweithwyr proffesiynol perthnasol.
- Ymgysylltu â phobl ifanc a meithrin perthnasoedd sy'n eu galluogi i gael mynediad at wasanaethau gan Ymarferwyr TATT.
- Gwneud galwadau 'gwirio i mewn' (check-in) gyda phobl ifanc os collir cysylltiad, neu pan fydd ymarferwyr TATT ar wyliau.
- Darparu cymorth Mentora Cyfoedion ar gyfer pobl ifanc a nodwyd.
- Cefnogi ymarferwyr TATT i ddatblygu sgiliau pobl ifanc drwy gynorthwyo gyda'u nodau; er enghraifft, eu helpu i chwilio am lety, gwaith gwirfoddol, neu weithgareddau yn y gymuned.
- Cyd-hwyluso gweithdai a gweithgareddau grŵp.
- Cymryd rhan yn y rota dyletswyddau gweinyddol – ymateb i alwadau ffôn ac e-byst.
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Rheolwr Tîm.
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â chyllid, adrodd, rheoli data a diogelu.
- Hyrwyddo cyfle cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd.

Cyflawni dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad, ac sy'n gyson â gradd y swydd.

Dangosyddion Perfformiad

- Cyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a safonau ymarfer.
- Ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfiaeth â safonau a gofynion statudol, rheoleiddiol, sefydliadol a rhai arferion gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth ac unigol.

Cyfrifoldeb ychwanegol:
Dim

Cyfrifoldeb rheoli llinell:
0

Cyfrifoldeb am reoli cyllideb:
£0

Gradd:

Graddfa 1

Amodau gwaith:

15 awr yr wythnos gyda dull hyblyg o weithio yn ystod yr wythnos a fydd yn cynnwys rhywfaint o weithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros i ffwrdd o adref dros nos o bryd i'w gilydd i fynychu cyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Teithio i wahanol leoliadau ar draws Gogledd Cymru

Cymwysterau

N/A

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau
Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- Cyfathrebu'n effeithiol
- Gweithio'n hyderus gyda phobl ifanc, un-i-un neu mewn grwpiau
- Cyd-hwyluso gweithdai neu weithgareddau grŵp
- Hyrwyddo'r gwasanaeth mewn digwyddiadau rhwydweithio, cyfarfodydd a thrwy gyfryngau cymdeithasol (bydd hyn yn cynnwys siarad yn gyhoeddus)
- Gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid, gan gydnabod syniadau, safbwyntiau a chefndiroedd gwahanol pobl eraill
- Cynllunio, cofnodi a threfnu gwaith, a rheoli amser yn effeithiol
- Bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd
- Chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a datblygiad proffesiynol

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos:

• Profiad o fod yn blentyn/person ifanc yng ngofal yr awdurdod lleol, neu brofiad o fod yn blentyn/person ifanc heb le i'w alw'n gartref
• Ymwybyddiaeth o system ofal yr awdurdod lleol
• Ymwybyddiaeth o system y gwasanaethau digartrefedd
• Dealltwriaeth o ddiogelu

Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser, a'u hyrwyddo'n weithredol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol).